
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

# Cynllun Strategol Ymchwil ac Arloesi

## 2025-2030



Cefnogi'r Gwaith o Gyflawni
**Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach**

# Rhagair

**Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ein gweledigaeth yw cyflawni ymchwil ac arloesi dylanwadol o safon uchel sy'n gwella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd i'n cymunedau, i'n cleifion, a'n staff. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r dull y byddwn yn ei weithredu dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni'r weledigaeth hon, gan gyd-fynd â strategaeth *Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach* y Bwrdd Iechyd.**

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan godi proffil ymchwil ac arloesi ar draws Fwrdd Iechyd y Brifysgol a chyda'n partneriaid. Bellach, mae gennym gyfleusterau ymchwil dynodedig ym mhob sir, mwy o ymchwilwyr clinigol nag erioed, partneriaethau sefydledig gyda phrifysgolion a diwydiant, a galluoedd arloesi a gwerthuso newydd drwy ein Sefydliad TriTech. Fodd bynnag, nawr yw'r amser i fynd â'r cyflawniadau hyn ymhellach a manteisio ar bolisi a thirwedd gyllid ffafriol ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac yn y DU.

Drwy weithredu'r strategaeth hon, byddwn yn gwella mynediad i ymchwil ac arloesi dylanwadol mewn meysydd allweddol megis gofal canser, afiechyd anadlol, iechyd menywod, afiechyd metabolig, gofal sylfaenol, iechyd digidol, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant. Rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant sy'n galluogi ymchwil ac arloesi, gan ehangu cyfranogiad, a grymuso holl staff iechyd a gofal – yn glinigol ac anghlinigol – i gyfrannu. Nid yn unig mae sefydliadau sy'n weithredol o ran ymchwil yn denu talent o'r radd flaenaf ond hefyd maent yn llwyddo i gadw staff drwy feithrin lefelau uwch o foddhad swydd.

Rydym yn cydnabod bod cyflawni cynnydd yn y meysydd hyn yn gofyn am gydweithrediad. Felly, byddwn yn atgyfnerthu ein partneriaethau â phrifysgolion, cyrff cyhoeddus, sefydliadau cymunedol, a diwydiant. Yn ogystal â chleifion, rydym yn cydnabod hefyd bod sefydliadau'r GIG sydd â gweithgareddau ymchwil ac arloesi amlwg yn fanteisiol hefyd i'r economi leol, economi Cymru ac economi'r DU drwy annog arloesiadau, creu swyddi a thwf economaidd.

Dylai cynlluniau strategol gael eu hategu gan ddull gweithredu cadarn. Er mwyn sicrhau hyn, mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu drwy broses drylwyr a bydd yn arwain gwaith ein Hadran Ymchwil ac Arloesi am y pum mlynedd nesaf. Un o'n camau gweithredu cyntaf fydd sefydlu fframwaith mesur i olrhain cynnydd. Mae pob cynnig o fewn y ddogfen hon yn ymarferol a chyflawnadwy. Byddwn hefyd yn rhoi strategaeth ymgysylltu gadarn ar waith ar draws grwpiau clinigol a phroffesiynol i gefnogi'r ddarpariaeth. Yn ogystal, bydd y cynllun strategol yn destun goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi newydd.

**Dewch i ni gydweithio i wireddu'r cynllun uchelgeisiol hwn ar gyfer cymunedau de-orllewin Cymru.**



**Mr Mark Henwood**
CYFARWYDDWR MEDDYGOL GWEITHREDOL



**Dr Leighton Phillips**
CYFARWYDDWR YMCHWIL, ARLOESI, A GWERTH



# Mae Ymchwil ac Arloesi yn Bwysig

Mae ymchwil ac arloesi yn helpu'r GIG i ddiagnosio afiechydon yn gywirach ac yn gynharach, cefnogi datblygiad triniaethau effeithiol, atal pobl rhag datblygu cyflyrau, gwella'r modd y caiff gofal ei ddarparu, a gwella canlyniadau iechyd ac ansawdd bywyd yn y pen draw. Ymhlith y manteision ehangach i'r GIG a ddaw yn sgil ymchwil ac arloesi mae gwell cyfraddau boddhad a chadw staff, profiad mwy cadarnhaol i'r claf a'r gofalwr, cyfradd farwolaethau is, a gwell perfformiad ariannol. Cafodd ein Strategaeth Ymchwil ac Arloesi (2021) ddiwethaf ei llunio i ysgogi'r buddion hyn yng nghyd-destun strategaeth ehangach BIP Hywel Dda – *Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach.*

# Cyd-destun Ehangach

**Mae cryn dipyn wedi'i gyflawni yn y cyfnod ar ôl i'n strategaeth ddiwethaf gael ei chyhoeddi, fel y gwelir drwy gydol y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae datblygiadau sylweddol wedi digwydd hefyd yn yr amser a aeth heibio ers ei chyhoeddi, yn cynnwys:**


***Lansio'r Cynllun Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW)* (2022)**, gan nodi sut fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei chenhadaeth o hyrwyddo, cefnogi a darparu goruchwyliaeth ar y cyd o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Amlinellodd y cynllun bedwar nod, gweithgareddau cysylltiedig a'r amgylchedd ariannol y mae ein gweithrediad ymchwil a datblygu'n gweithredu ynddo. Mewn dogfen berthnasol a gyhoeddwyd yn 2023, cyhoeddodd HCRW fframwaith newydd yn cynnwys set o ddisgwyliadau a safonau ar gyfer sefydliadau'r GIG. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi adnewyddu ei strategaeth – *Cymru Iachach* – gydag amcanion cynllunio ymchwil a datblygu cryfach ac wedi datblygu cynlluniau penodol sy'n ymwneud ag ymchwil fasnachol ac astudiaethau canser.

**Datblygiadau ar lefel y DU, yn cynnwys cyhoeddi *Adolygiad yr Arglwydd O'Shaugnessy* (2023) o dreialon clinigol masnachol yn y DU**. Dilynwyd hyn yn 2024 gan lansiad y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer y Rhaglen Fuddsoddi Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG), sydd wedi datgloi cyllid sylweddol i oresgyn cyfyngiadau i gyflawni lefel uwch o weithgarwch treialu masnachol ledled y DU. Bu camau pwysig hefyd i gryfhau'r ecosystem arloesi yn Lloegr. Gan ehangu ar adolygiadau diweddar, yn cynnwys y Weledigaeth Gwyddorau Bywyd, yr Adolygiad Mynediad Cyflym, ac ymchwiliad yr Arglwydd Darzi, mae Roland Sinker CBE wedi nodi'r glasbrint ar gyfer Rhaglen Ecosystem Arloesi (IEP).

**Cyhoeddi'r Strategaeth Arloesi Genedlaethol – Cymru'n Arloesi, Creu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach a Chynllun Gweithredu (2023)**. Dilynwyd hyn gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru yn datblygu camau galluogi ac yn sefydlu Cyfarwyddiaeth Ddigidol, Data Technoleg, Arloesi, a Gwerth newydd o fewn Gweithrediaeth y GIG, gyda diddordeb mewn cefnogi'r gwaith o fabwysiadu arloesedd.



**Mae'r system arloesi iechyd yng Nghymru wedi'i chefnogi'n sylweddol drwy sawl datblygiad cadarnhaol** gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gwasanaethu i ysgogi arloesedd a phartneriaethau diwydiant, yn cynnwys drwy genhadaeth ganser. Mae gwaith arloesol Comisiwn Bevan sy'n dwyn y teitl *Y Sylfeini ar gyfer Model Iechyd a Gofal y Dyfodol yng Nghymru* a gwaith cysylltiedig yng ngorllewin Cymru gan *Gyda'n Gilydd dros Newid* yn ehangu'r diffiniad o arloesedd i gwmpasu'r elfen gymdeithasol ochr yn ochr â'r elfen dechnegol. Mae sefydliadau fel MediWales ac ABPI Cymru wedi parhau i chwarae rhan amhrisiadwy mewn cynnull, galluogi a phontio rhwng yr arloesiadau iechyd diweddaraf a'r GIG.




**Bwriad BIP Hywel Dda i adnewyddu ei strategaeth – *Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach* (2018)**. Er na ragwelir i'r adnewyddiad hwn newid egwyddorion sylfaenol a gweledigaeth y strategaeth, sydd wedi llwyddo i ddal eu tir, bydd yn cynnig cyfle i BIP Hywel Dda:

- Adnewyddu ei amcanion strategol.
- Canolbwyntio ar iechyd poblogaeth digidol, y model cymdeithasol ar gyfer iechyd a darparu mwy o ofal yn y gymuned.
- Ailystyried yr opsiynau seilwaith, a dilyniant, i gefnogi'r weledigaeth hon.
- Asesu rôl pob un o'r safleoedd acíwt a chyfluniad y gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau gwydn o'r radd flaenaf o fewn y rhwydwaith ysbyty presennol.
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer gweithio rhanbarthol a chryfhau'r berthynas â'r gymuned ehangach i gyd-gynhyrchu a chyd-gyflawni model gofal iechyd y dyfodol.

Mae datblygiad ein rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth wedi cyflwyno asedau ymchwil ac arloesi unigryw, yn cynnwys mesur a phrisio canlyniadau cleifion yr adroddwyd arnynt yn rheolaidd mewn sawl maes sy'n darparu gwasanaeth.

**Mae datblygiadau wedi'u hyrwyddo ar lefel ranbarthol**, yn cynnwys sefydlu'r Cyd-bwyllgor ar gyfer Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'i flaenoriaeth gynnar i gyfnerthu cydweithrediad ymchwil ac arloesi ar draws y rhanbarth.

Mae'r ysgogwyr a'r cyfleoedd hyn, ynghyd ag asesiad gonest o'n sefyllfa gyfredol a'n hymgysylltiad mewnol ac allanol helaeth dros gyfnod o 10 mis, wedi arwain at ddatblygu'r cynllun strategol hwn. Y yr adrannau canlynol, byddwch yn canfod ein gweledigaeth a'r meysydd canlyniadau lefel uchel y byddwn yn gwneud pob ymdrech i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf, yn cynnwys trosolwg o pam eu bod yn bwysig a'r camau cyntaf y byddwn yn eu gweithredu mewn perthynas â phob un. Mae'r cynllun strategol yn cloi gyda darn byr ynglŷn â sut rydym yn bwriadu monitror ddarpariaeth a dwyn ein hunain ac eraill i gyfrif wrth gyflawni gweledigaeth a chyfeiriad uchelgeisiol a bennwyd.

# Gweledigaeth ac Amcanion

Ein gweledigaeth yw cyflawni ymchwil ac arloesi dylanwadol ac o ansawdd, gan wella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd i'n cymunedau, i'n cleifion, a'n staff.

**Byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth drwy:**

**Wella mynediad at ymchwil ac arloesi o ansawdd sy'n gwella gwasanaethau, iechyd a llesiant.**

**Creu amgylchedd a diwylliant sy'n datblygu a galluogi ymchwilwyr ac arloeswyr cymwys ac awdurdodedig i ffynnu.**

**Datblygu a chynnal partneriaethau sy'n hyrwyddo a chyflymu mynediad a dylanwad ymchwil ac arloesi.**

**Byddwn yn edrych yn fanylach ar y meysydd hyn yn yr adrannau sydd i ddod. Mewn perthynas â phob maes, bydd ein cynllun strategol:**

- Amlinellu pam mae'r maes yn bwysig, yn cynnwys darparu disgrifiad o'r sefyllfa bresennol a'r hyn sydd angen ei wella dros y pum mlynedd nesaf; a
- Chynnwys blaenoriaethau lefel uchel i roi'r blaenoriaethau hynny ar waith.

Bydd yr adran olaf yn egluro ein dull o ddarparu'r cynllun strategol, yn cynnwys ein trefniadau llywodraethu mewnol a'r ffordd byddwn yn rheoli partneriaethau gyda sefydliadau allanol.



# Mynediad a Dylanwad

Gwella mynediad at ymchwil ac arloesi o ansawdd sy'n gwella gwasanaethau, iechyd a llesiant.



**Pam mae hwn yn faes dan sylw:**

Rydym o'r farn y gall ymchwil ac arloesi o ansawdd wella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd, newid bywydau a chyfoethogi bywoliaethau. Prif ddiben ein hadran yw sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio yn BIP Hywel Dda a/neu yn derbyn ein gwasanaethau yn gallu datblygu a chael mynediad at ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, rydym wedi llwyddo i wneud cynnydd sylweddol o ran cefnogi ymchwil ac arloesi mewn meysydd yn cynnwys iechyd menywod, anadlol, orthopedeg, strôc, cardiofasgwlaidd, offthalmoleg, a thrwy ein menter TriTech, gwasanaeth a gwerthusiad technoleg. Mae'r adran wedi bod yn bodloni a rhagori ar ei thargedau perfformiad, ac mae ei chynnydd a'i dyfarniadau wedi adlewyrchu'n dda ar BIP Hywel Dda ac wedi arwain ati'n ymgymryd â gwaith ar ran Gweithrediaeth GIG Cymru hyd yn oed.

Fodd bynnag, mae sawl her yn dal i fod. Rydym yn rhy ddibynnol ar nifer cyfyngedig o ymchwilwyr ac arloeswyr, nad ydynt wastad yn mwynhau'r gefnogaeth sefydliadol ehangach a'r cynllunio olyniaeth a fyddai'n sicrhau cynaliadwyedd. Bydd y dasg o geisio aliniad gweithrediadol yn sail i bob agwedd ar y cynllun strategol hwn a'n bwriadau ar gyfer y cyfnod nesaf, yn cynnwys cymryd mwy o amser i flaenoriaethu'r ymchwil a'r arloesi a all gael y dylanwad mwyaf ar gynlluniau sefydliadol ehangach.

Rydym yn parhau i weld gwahaniaethau yn y treialon clinigol a gynigiwn, o'i gymharu â sefydliadau eraill gyda'r un maint poblogaeth a baich afiechyd tebyg, mewn meysydd yn cynnwys canser ac afiechyd metabolig.

Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod angen cynyddu ein gweithgarwch treialu masnachol a lefel yr ymchwil a'r arloesi a gynhelir mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Gyda'r olaf o'r ddau o bwys penodol o ystyried bwriad BIP Hywel Dda i symud at fodel cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant ac ymrwymiadau cadarn ynghylch mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd a llesiant dan arweiniad y model bioseicogymdeithasol o iechyd.

Mae yna gyfle i osod ein sefydliad ar flaen mudiad ymchwil ac arloesi digidol sy'n datblygu'n gyflym.

## Byddwn yn gwella mynediad a dylanwad drwy:

### 1 Reoli'r cyfleoedd a buddsoddiad sy'n gysylltiedig â mentrau a datblygiadau cenedlaethol lle maent yn cyd-fynd â'r cynllun strategol hwn, yn cynnwys:

- Cynyddu'r nifer a'r math o astudiaethau ymchwil masnachol a gefnogir, sicrhau buddsoddiad drwy'r Cytundeb Prisio Gwirfoddol ar gyfer Mynediad a Thwf (VPAG) a chynhyrchu incwm masnachol.
- Gweithio gyda chanolfannau ymchwil cenedlaethol a datblygiadau cysylltiedig. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal lefel y dyfarniadau a dderbyniwyd drwy'r Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gwella'n gallu i ddatblygu ymchwilwyr a gweithio gyda'r arweinwyr a'r rhwydweithiau ymchwil a noddir yn genedlaethol.
- Cydweithio â'r Rhwydweithiau Clinigol Strategol Cenedlaethol ar raglenni gwaith arloesi gyda'r potensial mwyaf i annog newid, gwella canlyniadau, lleihau amrywiad a gwella iechyd a bywyd ein poblogaeth.
- Datblygu'r Sefydliad TriTech ymhellach i gefnogi technoleg feddygol, llwybr clinigol a strategaethau arloesi, cynlluniau a mentrau cysylltiedig, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu gwerthuso gan Technoleg Iechyd Cymru a'u hystyried gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

### 2 Gweithio gyda Chyd-bwyllgor Bae Abertawe a BIP Hywel Dda, a phartneriaid eraill, i ddatblygu rhaglen ymchwil ac arloesi ranbarthol, sy'n:

- Cwmpasu meysydd gwasanaeth lle ceir dull cyflawni traws-sefydliad a chyfleoedd ymchwil ac arloesi cydlynol (e.e. canser ac afiechyd cardiofasgwlaidd).
- Cynyddu ymchwil fasnachol ac arloesi drwy'r Sefydliad TriTech yn BIP Hywel Dda ac mewn cydweithrediad â Chyfleuster Ymchwil Glinigol ar y Cyd ym Mhrifysgol Abertawe gyda BIP Bae Abertawe.

### 3 Cynyddu gweithgareddau ymchwil ac arloesi o fewn BIP Hywel Dda, drwy:

- Sefydlu grwpiau thematig, gydag ymgysylltiad arwyddocaol â'r cyhoedd a'r cleifion, mewn meysydd ymchwil ac arloesi gweithredol a newydd (e.e. iechyd menywod, anadlol, tystiolaeth a gwerthusiad byd go iawn), cydnabod yr angen i ddatblygu'r capasiti i sicrhau dylanwad parhaus.
- Datblygu capasiti ymchwil ac arloesi mewn meysydd newydd, gan gynnwys adrannau corfforaethol (e.e. gwasanaethau digidol, arweinyddiaeth ac arfer rheoli), ymchwil iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol.

- Cefnogi ymchwil ac arloesi cymdeithasol seiliedig ar gymuned, er mwyn mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol a datblygu model cymdeithasol o iechyd a llesiant. Byddwn yn nodi'r ymchwil a'r arloesi sy'n datblygu'r model bioseicogymdeithasol o iechyd.
- Datblygu'r Sefydliad TriTech fel canolfan ragoriaeth ar gyfer astudiaethau a gwerthusiadau tystiolaeth byd go iawn, yn cynnwys gwyddoniaeth gweithredu, sy'n cyd-fynd â datblygiadau strategol cenedlaethol a rhyngwladol.
- Atgyfnerthu'r cyfraniad a wneir gan ymchwil ac arloesi i heriau gweithrediadol ehangach, gan gynnwys bregusrwydd y gwasanaeth, gwella ansawdd y gofal a gwella'r canlyniadau iechyd.
- Defnyddio ein hasedau Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i ategu ein rhaglenni ymchwil ac arloesi, yn arbennig ein gwybodaeth am ganlyniadau cleifion yr adroddwyd arnynt a'n methodoleg brisio. Bydd hyn yn cynnwys datblygu gwerthusiad economaidd ac Enillion ar Fuddsoddiad (RoI) fel blaenoriaeth greiddiol o ran ymchwil iechyd cyhoeddus a gofal iechyd seiliedig ar werth.



# Amgylchedd a Diwylliant

Creu amgylchedd a diwylliant sy'n datblygu a galluogi ymchwilwyr ac arloeswyr cymwys ac awdurdodedig i ffynnu.

Mae gofyn cael unigolion a thimau cymwys, egnïol ac awdurdodedig i wella mynediad at ymchwil ac arloesi dylanwadol. Mae ein hadran yn chwarae rôl allweddol drwy greu amgylchedd sy'n galluogi timau i gynnal ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf.

Mae ein cefnogaeth yn cynnwys dylunio a sefydlu astudiaeth a phrosiect, recriwtio, gwerthusiad a dadansoddiad, hyfforddiant, contractio a rheoli ansawdd. Rydym yn darparu cyfleusterau gwych a chyngor i gydweithwyr ac yn helpu i sicrhau buddsoddiadau a grantiau er mwyn goresgyn rhwystrau i gynnal ymchwil ac arloesi effeithiol. Yn aml, mae'r grantiau hyn yn galluogi staff i sicrhau amser ar gyfer ymchwil ac arloesi ochr yn ochr â'u swyddi arferol.

Bu i'n hadran ddyblu mewn maint dros y pedair blynedd ddiwethaf a chanddi enw da am ei diwylliant cadarnhaol y mae timau ar draws y sefydliad yn ei groesawu. Dros yr un cyfnod, mae'r clinigwyr sy'n gallu neilltuo amser i ymchwil ac arloesi wedi cynyddu pedair gwaith drosodd.

Bellach, mae gennym bresenoldeb a chyfleusterau ymchwil pwrpasol ym mhob un o'n safleoedd ysbyty. Fodd bynnag, mae rhai heriau'n dal i fod. Mae'n rhaid i ni wella gweledEdd ein gweithrediadau ar draws y sefydliad. Mae'n rhaid i ni ddangos y cyfraniad y gall ymchwil ac arloesi ei wneud i faterion sefydliadol hirdymor, yn cynnwys recriwtio a chadw a darparu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae ein hadran yn ddibynnol iawn ar fuddsoddiad allanol ac felly, mae'n sensitif i flaenoriaethau'r partïon allanol hyn a'r amrywiadau mewn cyllid. Mae tensiwn parhaus ynn dod yn sgil yr olaf o'r rhain wrth geisio cydbwyso capasiti'r tîm gyda'r galw a sicrhau ein bod yn gallu cael yr effaith fwyaf posibl i gefnogi BIP Hywel Dda. Yn ogystal, wrth gael ein meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill, nid yw ein lefel gyffredinol ni o fuddsoddiad ymchwil ac arloesi yn ymddangos yn gymesur â maint ein poblogaeth neu ein baich afiechyd.

O edrych tua'r dyfodol, bydd y strategaeth hon yn sicrhau bod BIP Hywel Dda mewn sefyllfa ddelfrydol i fynd i'r afael a'r heriau hyn, yn cynnwys nodi cyfleoedd sy'n gysylltiedig â strategaeth glinigol adnewyddedig, rhaglen fuddsoddi VPAG, a datblygiadau arloesi sy'n ymwneud â rhwydweithiau clinigol Gweithrediaeth y GIG.



## Byddwn yn gwella ein hamgylchedd ymchwil ac arloesi drwy:

### 1 Ddatblygu ein hadran alluogi, blaengar a deinamig. Bydd hyn yn cynnwys:

- Mireinio'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu ag unigolion a thimau ar draws y sefydliad a chodi ymwybyddiaeth drwy gynhadledd ymchwil ac arloesi, a digwyddiadau i ddathlu cyflawniadau.
- Gwella ein gallu i ddatblygu ymchwilwyr a datblygu ein staff adrannol i ddod yn arweinwyr ymchwil ac arloesi, gyda meysydd arbenigol o ddiddordeb a lefel briodol o addysg a chefnogaeth.
- Cynyddu'r defnydd o gyfleusterau ymchwil ac arloesi a manteisio ar y cyfleuster newydd yn y cynllun Pentre Awel.
- Sicrhau perfformiad gwell a chyson yn erbyn targedau perfformio allweddol Bwrdd Iechyd y Brifysgol a chenedlaethol, lle mae'r rhain o fewn ein rheolaeth.



- Rhoi cynllun busnes newydd ar waith i'r Sefydliad TriTech a manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad i strategaeth glinigol BIP Hywel Dda.
- Arallgyfeirio ffynonellau incwm, yn cynnwys datblygu gwell capasiti ariannol er mwyn ymgymryd â gwaith ymchwil ac arloesi a gomisiynwyd yn fewnol, cael mynediad at fwy o gyllid gan raglenni a chynlluniau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, cynyddu gweithgarwch ymchwil fasnachol, a sicrhau incwm grant mwy a phartneriaethau mwy hirdymor gyda sefydliadau masnachol a sefydliadau cenedlaethol.
- Cymryd rhan weithredol mewn nodi a datrys yr hyn sy'n ein rhwystro rhag cynyddu gweithgarwch ymchwil ac arloesi, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gwasanaethau galluogi (e.e. digidol, llywodraethu gwybodaeth, fferylliaeth, patholeg, radioleg).
- Datblygu dull BIP Hywel Dda o fabwysiadu arloesedd lle bo tystiolaeth gref dros wneud hynny, gan weithio'n agos â chydweithwyr yn yr adran gyllid a'r adran gaffael.
- Datblygu capasiti arwyddocaol i gefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n berthnasol i benderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd a llesiant.
- Cryfhau arbenigedd masnacheiddio arloesi.



**2**

**Datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ymchwil ac arloesi, yn cynnwys:**

- Cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n gallu rhoi o'u hamser yn barhaus i arwain ymchwil ac arloesi. Bydd hyn yn cynnwys academyddion clinigol yn gweithredu dan drefniadau rheoli perfformiad y prifysgolion a'r gweithwyr proffesiynol a reolir gan BIP Hywel Dda, sydd ag amser dynodedig i arwain ymchwil ac arloesi, yn cynnwys y rhai sydd â chysylltiad â phartneriaid y brifysgol. Byddwn yn nodi cyfleoedd sy'n:
- Cyd-fynd â diddordebau a blaenoriaethau ein grwpiau ymchwil ac arloesi.
- Cefnogi meysydd sy'n darparu gwasanaeth er mwyn cryfhau atyniad swyddi clinigol allweddol.
- Cyfrannu at fodelau gwasanaeth rhanbarthol lle rydym yn gwybod bod mynediad cleifion at ymchwil ac arloesi yn gyfyngedig ar hyn o bryd.
- Ehangu ystod y gweithwyr proffesiynol (e.e. iechyd cyhoeddus) gydag amser dynodedig ar gyfer prosiectau a rhaglenni ymchwil ac arloesi sy'n datblygu.
- Cynyddu cyfran y staff gydag amser o fewn eu hwythnos waith i alluogi ymchwil ac arloesi.

**3**

**Sicrhau bod ymchwil ac arloesi yn cael eu gwreiddio yn y trefniadau cynllunio, perfformio, a llywodraethu drwy gydol y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys:**

- Cynnwys mesurau perfformio ymchwil ac arloesi yn y cynlluniau sefydliadol a'r trefniadau llywodraethu ehangach a sicrhau bod yr un peth yn cael ei gyflwyno drwy'r adnoddau a'r cymorth sy'n cael eu cynnig gan yr adran.
- Sicrhau cysylltiad mwy clir rhwng ymchwil ac arloesi a chynlluniau recriwtio a chadw BIP Hywel Dda.
- Datblygu rhaglen gyfoethocach o gyfleoedd datblygu ymchwilwyr, gydag aliniad clir â rhaglenni datblygu sefydliadol o fewn BIP Hywel Dda.
- Datblygu proses barhaus o ymgysylltiad â gwahanol grwpiau proffesiynol, clinigol ac anghlinigol ar hyd y sefydliad, sy'n canolbwyntio ar beth arall y gellir ei wneud i ddatblygu amcanion y strategaeth hon.

# Partneriaethau

Datblygu a chynnal partneriaethau sy'n hyrwyddo a chyflymu mynediad a dylanwad ymchwil ac arloesi.


Mae partneriaethau ystyrlon â gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau, prifysgolion a diwydiant yn bwysig. Mae partneriaethau'n dod ag adnoddau, momentwm, dealltwriaeth a'r gallu i'r broses ymchwil ac arloesi. Maent yn sicrhau ei llawn botensial i gael dylanwad cadarnhaol ar ein gweithwyr, y gwasanaethau a ddarparwn, a'r canlyniadau a gyflawnir gyda'n cymunedau.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn partneriaethau dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae gennym bartneriaethau prifysgol cadarn sydd wedi cynyddu ac ysgogi prosiectau gweithio ar y cyd, wedi sefydlu penodiadau newydd anrhydeddus ac ar y cyd, ac wedi datblygu rhaglenni addysgol teilwredig. Rydym yn gweithredu dull effeithiol o gydweithio â diwydiant sydd wedi arwain at sawl prosiect ar y cyd â chwmnïau technoleg feddygol a biofferyllol mawr.

Mae ein harferion gweithio rhanbarthol wedi aeddfedu o ganlyniad i brosiectau cydweithredol dylanwadol yn cael eu hannog gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rydym wedi cefnogi uchelgais BIP Hywel Dda am fodel cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant drwy weithredu rhaglen waith sydd wedi arwain at sefydlu Sefydliad Arloesi Cymdeithasol. Rydym wedi arwain prosiectau ar ran Gweithrediaeth GIG Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, mewn meysydd yn cynnwys iechyd anadlol, presgripsiynu cymdeithasol, ac iechyd cyhoeddus.

Serch y cynnydd hwn, nawr yw'r amser i adfywio partneriaethau presennol o ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae yna hefyd gryn botensial i sefydlu partneriaethau cydweithredol newydd sy'n canolbwyntio ar ein nodau o ehangu mynediad a dylanwad ymchwil ac arloesi.





## Byddwn yn atgyfnerthu ein partneriaeth i gyflawni mynediad a dylanwad drwy:

### 1

**Wella'r aliniad a'r cydgyfnewidiaeth rhwng partneriaid prifysgol presennol a'n cynlluniau ymchwil ac arloesi.** Bydd hyn yn cynnwys adnewyddu ein cytundebau cydweithrediad â phob partner prifysgol a datblygu ffordd well o reoli ein partneriaid dwyochrog ac amlochrog. Byddwn yn cytuno ar uchafswm o dri nod ymchwil ac arloesi hirdymor gyda phob partner prifysgol, fydd yn cyd-fynd yn agos â'u cynlluniau. Gallai ein nodau â:

- Phrifysgol Abertawe gynnwys gweithio'n deirochrog â BIP Bae Abertawe i wella ymchwil ac arloesi mewn meysydd gwasanaeth a ddarperir ar sail ymdrechion rhanbarthol a chefnogi'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arloesedd mewn Chwaraeon ac Iechyd (NNISH).
- Gallai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gynnwys cynnal ein partneriaeth arloesi technegol a datblygu Sefydliad Arloesi Cymdeithasol newydd.
- Prifysgol Aberystwyth gynnwys datblygu ein cysylltiad ag Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERs) a manteisio ar ein diddordeb cyffredin mewn datblygu ac ymchwil cymunedol sydd wedi'u sbarduno gan Bartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol ar gyfer Twf Lleol (LPIP).

### 2

**Sefydlu partneriaethau prifysgol newydd mewn meysydd o ddiddordeb cyflin, a allai gynnwys:**

- Cynyddu nifer y swyddi a ariennir ar y cyd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau BIP Hywel Dda a'r brifysgol.
- Bod yn rhagweithiol o ran ehangu partneriaethau ymchwil sy'n ymwneud â'n hamcanion ymchwil iechyd cyhoeddus.

### 3

**Datblygu ein trefniadau partneriaeth ddiwydiannol drwy:**


- Gwneud cytundeb â'r cynlluniau Bargen Twf Prifddinas-Ranbarth a datblygu ffordd systematig o gefnogi'r sector gwyddorau bywyd yn ne-orllewin Cymru.
- Datblygu partneriaethau gweithio ar y cyd hirdymor gyda diwydiant mewn meysydd o ddiddordeb cyflin.
- Sefydlu carfan newydd o gymrodoriaethau clinigol ar y cyd â diwydiant.
- Gweithio â phartneriaid diwydiant a chenedlaethol i greu rhaglen datblygu sgiliau arloesi sy'n helpu staff y GIG i weithio â phartneriaid diwydiant.

4

**Atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gyhoeddus a chymunedol, yn cynnwys datblygiadau rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnwys:**

- Llywio a chyfrannu at gyflwyno agenda Cyd-bwyllgor De-orllewin Cymru, ynghyd ag ymchwil gysylltiedig a mentrau arloesi.
- Llywio a chyfrannu at gyflawni Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal, ynghyd ag ymchwil gysylltiedig a mentrau arloesi.
- Cydweithio â Gweithrediaeth GIG Cymru fel partner cyflawni ar gyfer prosiectau ymchwil ac arloesi sy'n gysylltiedig â'r rhwydweithiau clinigol cenedlaethol.
- Gweithio â chyrff cyhoeddus eraill (Llesiant Delta) a chenadaethau a sefydliadau cymunedol (Gyda'n Gilydd Dros Newid) ar brosiectau a rhaglenni ymchwil ac arloesi ar y cyd sy'n cyd-fynd â strategaeth adnewyddedig BIP Hywel Dda a'r cynllun strategol hwn.






# Cyflawni'r Cynllun Strategol

# Cyflawni'r Cynllun Strategol

Bydd cyflawni'r cynllun strategol wedi'i wreiddio yng ngweithgareddau ein hadran o ddydd i ddydd, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ganolog i sut rydym yn cynllunio, rheoli a chyflawni gwaith ymchwil ac arloesi dylanwadol ac o'r radd flaenaf. Credwn fod cynlluniau strategol yn cael eu cyflawni mewn cyd-destunau deinamig sy'n newid yn barhaus. Gan aros yn driw i'n hamcanion lefel uchel, bydd ein dull cyflawni yn galluogi ymateb chwim i'r gofynion newidiol cysylltiedig a hyblygrwydd wrth wneud penderfyniadau.

O safbwynt ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd penderfyniadau gweithredu allweddol a monitro yn digwydd drwy'r Grŵp Arweinyddiaeth Ymchwil a Chyflawni, a'r Grŵp TriTech ac Arloesi. Bydd y timau gweithredol o dan bob un o'r grwpiau hyn yn sicrhau bod camau strategol yn cael eu gweithredu'n ymarferol. Bydd BIP Hywel Dda yn sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei gyflawni drwy'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi (DDIC), a fydd yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r Is-bwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Bydd grŵp Ansawdd Ymchwil a Nawdd yn parhau i sicrhau bod y gweithgareddau ymchwil a ddatblygir gan BIP Hywel Dda yn ddiogel, yn ddylanwadol ac o safon uchel.


Mae partneriaethau'n un o brif nodweddion y strategaeth hon a byddant yn cael eu llywodraethu fel a ganlyn:

- Lle bo'n briodol, bydd partneriaethau rhanbarthol yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor ar gyfer BIP Bae Abertawe a BIP Hywel Dda, a Chyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal.
- Bydd partneriaethau prifysgol yn cael eu llywodraethu'n rheolaidd drwy DDIC, ond er mwyn sicrhau ystyriaeth ddigonol o'r holl agweddau ar waith ar y cyd (h.y., ymchwil a datblygu, menter ac arloesi, a dysgu, addysgu a gweithlu), bydd Fforwm Partneriaethau Prifysgol newydd yn cael ei alw ynghyd.



**Ffigwr 1** yn darparu trosolwg o sut byddwn yn rheoli a llywodraethu'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Bydd fframwaith cyflawni yn cael ei baratoi ar ôl lansio'r strategaeth, fydd yn nodi mesurau clir a dyddiad cyflwyno ym mhob maes priodol.

**Ffigwr 1 – Llywodraethu ar gyfer Cyflawni'r Strategaeth**








**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:**

Swyddfa Ymchwil ac Arloesi
Parc Dura, Heol Yspitty,
Bynea, Llanelli, SA14 9TD

**E-bost:** HDd.Research-Development@wales.nhs.uk neu tritech.hdd@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board